# YMUNWCH Â NI

## SWYDDI GWAG RHEOLWR ARDAL

### PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

RAISING AWARENESS - REDUCING RISK

# PWY YDYM NI

**“I WNEUD DE CYMRU'N DDIOGELACH, TRWY LEIHAU RISG”**

Ni yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a’n gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd sy’n gyrru ac yn cymell ein pobl i wneud de Cymru’n fwy diogel, drwy leihau risg. Ein nod yw amddiffyn a gofalu am y 10 Awdurdod Unedol sy'n creu ein hardal amrywiaethol trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau rheng flaen eraill

Rydym yn cyflogi tua 1700 o bobl ar draws De Cymru mewn cymysgedd o rolau Gweithredol a Chorfforaethol, gyda’r rhan fwyaf o’n staff corfforaethol wedi’u lleoli yn ein pencadlys yn Llantrisant.

Cefnogir y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir gan Staff Gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan nifer o dimau, sy'n cyflawni rolau gweinyddol a thechnegol. Mae Staff Gweithredol a Chorfforaethol yn cydweithio'n agos i ddarparu lefel uchel o wasanaeth i gymunedau De Cymru

Mae Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Thegwch yn flaenoriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae gennym ymrwymiad i ymdrechu i adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

# PROFFIL SWYDD

**Ymgeisiwch erbyn y 10fed o Fawrth 2025**

**Disgwylir i'r cyfnod rhestr fer gymryd lle ar y 13eg o Fawrth 2025**

**Disgwylir i'r cyfweliadau gymryd lle'r wythnos sy'n cychwyn y 7fed o Ebrill 2025**

Mae'r Gwasanaeth yn chwilio i recriwtio nifer o Reolwyr Ardal ar sail barhaol fydd yn arddangos agwedd fywiog ac arloesol wrth arwain ardal wasanaethu eang tra'n cynnal gwerthoedd y Gwasanaeth.

Bydd y swydd hon yn darparu cyfle i'r ymgeiswyr llwyddiannus i ddyrchafu diwylliant a gwerthoedd y GTA drwy law arweinyddiaeth strategol effeithiol. Hefyd, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyfrannu at lunio'r gwasanaethau a ddarperir i'n cymunedau yn Ne Cymru i'r dyfodol drwy law cydweithredu cryf, penderfyniadau clir ac wrth adeiladau a chynnal diwylliant o berfformiad uchel. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi datblygiad rôl y Gwasanaeth o fewn cyd-destun ehangach yr isadeiledd sector cyhoeddus o fewn Cymru a gweddill y DU.

<u>**Cymhwystra**</u>

- Rheolwr Grŵp B Cymwys **NEU** Reolwr Ardal a gyflogwyd o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub mewn awdurdod lleol yn y DG
- Wedi Pasio Gwobr Sgiliau Er Cyfiawnder Lefel 7 (ICL4) mewn Rheoli Digwyddiad Strategol
  **NEU**
  Wedi pasio Rheoli ICL3 gydag ymrwymiad i basio'r ICL4 llawn o fewn 6 mis o gychwyn penodiad fel Rheolwr Ardal
  - Cwrs Rheoli Strategol Cymreig (Aur) **NEU** barodrwydd i gwblhau hyn o fewn cyfnod amser rhesymol yn dilyn y penodiad
  - Lefel 7 ILM (neu gymhwyster cyfartalog) **NEU** barodrwydd i gwblhau o fewn terfynau cymeradwy
  - Y gallu i arddangos profiad o ddysgu priodol o fewn maes arweinyddiaeth a rheoli ar lefel Rheolwr Strategol (i ymgeiswyr mewnol, gellir tystiolaethu hwn o'r Llwybr 'Arwain y Gwasanaeth' neu gymhwyster cyfartalog)
  - Heb feddu ar unrhyw sancsiynau disgyblaethol neu berfformiadol ar yr adeg ymgeisio

**Noder: Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus allu darparu cwmpasiad gweithredol, ac felly, byw neu gael ei leoli (tra ar ddyletswydd) o fewn Ardal GTA De Cymru**

- Oriau gwaith: **Rota Dyletswydd Rheolaeth Aur**
- Cytundeb: **Parhaol**
- Gradd: **Rheolwr Ardal**
- Cyflog: **£65,690 - £72,054 (Ynghyd ag 20% Dyletswydd Hyblyg, 14% Lwfans Dyletswydd Barhaol a Mynediad at Gynllun Lesio Ceir y Gwasanaeth)**

# SWYDD-DDISGRIFIAD

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**Yn gyfrifol i'r:** Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

**Yn Gyfrifol am:** Gyfeiriad a rheolaeth strategol adran ddynodedig o fewn GTADC

1. I gynnal lefelau uchel o gymhwysedd gweithredol ynghyd â mynychu digwyddiadau gweithredol yn ôl y gofyn
2. Dehongli blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol a'u trosi i gynlluniau Adran, gan ddyrannu adnoddau mewn perthynas â'r cynlluniau
3. Ymgymryd â gwaith prosiect cydnabyddedig ar flaenoriaethau sefydliadol a chynllunio, a lle bo'n angenrheidiol, arwain
4. Sicrhau y cynhelir parhad busnes ac ymdrechu i gyflawni gwelliant parhaus fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli
5. Cynrychioli buddion Y Gwasanaeth mewn fforymau Rhanbarthol a Chenedlaethol amrywiol, e.e. BGC a'r CPTC
6. Cadeirio, hwyluso a chyfrannu at gyfarfodydd ar lefelau adrannol a sefydliadol
7. Sefydlu a chynnal cydberthnasau gwaith effeithiol o fewn y sefydliad
8. Cynghori ar faterion Adrannol a pherthnasol cyfredol a materion sy'n datblygu o bersbectif Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol
9. Chwilio am welliannau parhaus wrth sganio amgylcheddau mewnol ac allanol. Dyfeisio a chyflawni opsiynau strategol a thactegol ar gyfer gwella
10. Rheoli cyllideb adran a dyrannu gwariant refeniw yn unol â blaenoriaethau ac anghenion adrannol a adnabuwyd
11. Darparu Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth drwy law gweithgarwch a chynllunio prosesau adrannol
12. Sicrhau cydymffurfiaeth yr Adran â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
13. Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyaethau'r sefydliad
14. Arwain perfformiad yr Adran drwy law Rheolwyr o fewn y swyddogaeth. Sefydlu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol. Datrys a chynnig adborth ar holl faterion perfformiad
15. Adnabod anghenion personél gogyfer y swyddogaeth a dyrannu meysydd a chwmpas cyfrifoldeb
16. Sicrhau yr arfogir staff adrannol â'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i gyflawni amcanion ac y'u grymuswyd hyd at y lefel briodol

17. Cynllunio a chyflawni archwiliadau mewnol o wasanaethau adrannol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau ansawdd perthnasol
18. Monitro ac archwilio gwybodaeth a sianelau cyfathrebu i dracio perfformiad a chyflawniad ar lefel unigol, tîm ac adran
19. Adnabod cyfleoedd ar gyfer hunan ddatblygiad parhaus yn bersonol a phroffesiynol ynghyd â sefydlu rhwydwaith proffesiynol amrywiol

**Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod, bydd gofyn i ddeiliad y swydd:**

1. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'u gradd a'u swydd.
2. Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
3. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
4. Cymhwyso egwyddorion Gweithdrefn Urddas yn y Gweithle Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth wrth gyflawni'u dyletswyddau.
5. Amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl rhag niwed, gan adrodd unrhyw bryderon diogelu wrth ddefnyddio Gweithdrefn Ddiogelu'r Gwasanaeth.
6. Ufuddhau i Ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a chymryd gofal rhesymol mewn perthynas â'u hiechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.

# Y FANYLEB PERSON

**HANFODOL**

- ✓ Rheolwr Ardal Parhaol Gwasanaeth Tân ac Achub **NEU** Reolwr Grŵp B Parhaol a Chymwys
- ✓ Lefel 3 ICL (gydag ymrwymiad i basio Lefel 4 ICL 4 o fewn 6 mis o'r penodiad)
- ✓ Dealltwriaeth fanwl o swyddogaethau'r Gwasanaethau Tân ac Achub
- ✓ Dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu'r Gwasanaeth o fewn Cymru a'r DU ill dau
- ✓ Profiad o ddarparu cyngor a chefnogaeth dactegol wrth ddatrys digwyddiadau gweithredol sy'n cynnwys ymgysylltu aml-asiantaeth yn unol ag egwyddorion arferion gorau gweithredol
- ✓ Gwybodaeth o ddeddfwriaeth a dyletswyddau penodol y Gwasanaeth Tân ac Achub
- ✓ Gwybodaeth a phrofiad o reoli cyllidebau adrannol/swyddogaethol mawr, gyda ffocws ar werth gorau
- ✓ Profiad o sefydlu a gosod cyfarwyddyd strategol clir, e.e. ffurfioli, arwain a gweithredu strategaethau adrannol
- ✓ Ymroi i arddangos arweinyddiaeth i'ch hun ag eraill
- ✓ Bod â'r gallu i ysgogi a rheoli prosesau newid ar raddfa fawr, gan chwilio am gyfleoedd i greu a chyflawni gwell effeithiolrwydd sefydliadol
- ✓ Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig mewn sefyllfaoedd hynod heriol yn gyson
- ✓ Bod yn arweinydd cynhwysol sydd â sgiliau rhyngbersonol cryf a all weithio'n gydweithredol ar draws ffiniau gan annog cydweithio â'r rhai hynny sydd o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Gymuned ehangach ill dau
- ✓ Y gallu i gyfathrebu a dylanwadu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i amrediad eang o gynulleidfaoedd, e.e. gydag aelodau o'r Awdurdod Tân, uwch reolwyr, staff, partneriaid allanol a chyfranddalwyr eraill
- ✓ Bod yn ymroddedig i ddatblygiad parhaus eich hunan, unigolion a swyddogaethau i wella effeithiolrwydd sefydliadol a chynyddu galluogrwydd, diwylliant, ymgysylltu a pherfformiad o fewn y gweithle
- ✓ Bod â'r gallu i ystyried materion a risgiau sy'n datblygu i ddarogan a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol ynghyd â gwneud penderfyniadau strategol realistig
- ✓ Bod â dealltwriaeth o wella Iechyd, Diogelwch a Llesiant o fewn y gweithle ac i ymroi iddo
- ✓ I weithio'n gydweithredol fel rhan o uwch dîm arwain cydlynus
- ✓ I sicrhau bydd adrannau yn gweithio mewn cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau i leihau'r risg i'r Gwasanaeth
- ✓ Bod yn fodel rôl allweddol sydd wedi ymroi i egwyddorion Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlynu a Thegwch

- ✓ Dealltwriaeth o, a'r gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â'r Ddeddf Diogelu Data 1998, Y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r goblygiadau ar gyfer sicrhau cyfrinachedd ar bob adeg
- ✓ Bod â'r gallu i ddarparu cynlluniau adran hynod effeithiol, gan sicrhau y darperir prosiectau a rhaglenni yn unol â blaenoriaethau sefydliadol a therfynau amser wrth adnabod yr effeithiau a'r goblygiadau gwleidyddol posib o ran persbectif Strategol

**DYMUNOL**

- ✓ Lefel 7 Gwobr Sgiliau Er Cyfiawnder mewn Rheoli Digwyddiadau Strategol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub
- ✓ Aelodaeth gorfforaethol o Sefydliad y Peirianwyr Tân
- ✓ Profiad o gynnal negodiadau/ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol gydag undebau llafur
- ✓ Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg

**Noder:**

**Bydd gofyn i'r rôl hon ddarparu cwmpasiad ar yr amserlen weithredol, gan gynnwys Gwyliau Cyhoeddus a phenwythnosau.**

# Y BROSES YMGEISIO

**Dylai ymgeiswyr lenwi ein ffurflen tystiolaeth llunio rhestr fer.**
**Dylai hwn fynd i'r afael â'r cwestiynau isod gydag ymateb nad yw'n fwy na 500 gair fesul cwestiwn (Uchafswm 2000 Gair)**

**Cwestiwn 1: CYMHWYSTRA: A fyddech gystal â thystiolaethu'r cymwysterau a'r profiad sydd gennych sy'n eich gwneud chi'n berson iawn ar gyfer y rôl hon.**

**Cwestiwn 2: EFFEITHIOLRWYDD SEFYDLIADOL: A fyddech cystal â darparu esiamplau o sut rydych wedi gweithio'n effeithiol o fewn amgylchedd strategol gan ddatblygu datrysiadau ymarferol a chreadigol i faterion strategol.**

**Cwestiwn 3: EFFAITH BERSONOL: Amlinellwch sut fyddech chi'n fodel rôl ac yn hyrwyddo safonau, uniondeb a gwerthoedd proffesiynol, gan greu amgylchedd ymddiriedus a chynhwysol.**

**Cwestiwn 4: ARWEINYDDIAETH RAGOROL: Amlinellwch sut fyddech chi'n hyrwyddo ac arddangos arweinyddiaeth ragorol ar bob lefel a chefnogi egwyddorion sefydliad dysg.**

# SUT I YMGEISIO

**Ymgeiswyr Allanol**

Mewngofnodwch i'n gwefan yn: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi-gwag

Dewiswch y rôl o'r 'Swyddi Gwag Presennol' a chliciwch ar y ddolen ar gyfer ein system e-recriwtio.

Sicrhewch fod pob adran o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Ymgeiswyr Mewnol**

Mewngofnodwch i People XD/Core a llywio i 'swyddi gweigion cyfredol' i ddewis y swydd berthnasol. Sicrhewch fod pob adran o'r cais wedi'i chwblhau a chofiwch atodi'r wybodaeth ategol sy'n manylu ar eich cymhwysedd ac sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â meini prawf y rhestr fer.

**Pob Ymgeisydd**

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, megis print bras neu gefndir gwyn neu liw, neu fel arall angen ffurflen gais bapur, cysylltwch â'n tîm Recriwtio yn recriwtio@decymru-tan.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01443 232300 a byddwn yn ymdrechu i helpu cyn gynted â phosibl.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

# GWYBODAETH YCHWANEGOL

**Gwiriadau Recriwtio Allanol**

**Bydd yr holl ymgeiswyr allanol yn destun y gwiriadau recriwtio canlynol cyn eu penodi:**

- Gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwiriadau hawl i weithio.
- Gwiriadau meddygol, iechyd a ffitrwydd.
- Gwiriadau trwydded yrru.
- Gwiriadau Tystlythyron.

## Cod Moeseg Craidd CCPT

**RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF:** Rydym yn blaenoriaethu lles y cyhoedd, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.




**UNIONDEB:** Rydym yn gweithredu gydag uniondeb, gan gynnwys bod yn agored, yn onest ac yn gyson ym mhopeth a wnawn.

**URDDAS A PHARCH:** Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol ar sail tystiolaeth, heb wahaniaethu na thuedd.

**ARWEINYDDIAETH:** Rydym i gyd yn fodelau rôl cadarnhaol, bob amser yn dangos hyblygrwydd ac arweinyddiaeth hydwyth. Rydym i gyd yn atebol am bopeth a wnawn ac yn herio pob ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau uchaf.

**CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD:** Rydym yn cydnabod ac yn hyrwyddo gwerth CAC yn barhaus o fewn GTADC a'r cymunedau ehangach yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn sefyll yn erbyn pob math o wahaniaethu, yn creu cyfle cyfartal, yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn meithrin cysylltiadau da ac yn dathlu gwahaniaeth.

**Dyma'r sylfaen ar gyfer ein gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a bydd yn ein helpu i greu amgylchedd sy'n groesawgar, yn oddefgar ac yn ddiogel, heb unrhyw le i ymddygiadau amhriodol a chamau gweithredu sy'n bygwth, amharchu neu'n dychryn eraill**

.

# BUDDION

**Gwyliau Blynyddol** – Lwfans gwyliau blynyddol hael.

**Rhaglen Cymorth i Weithwyr -** Mae'r RhGG yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i weithwyr gael mynediad iddo pryd bynnag y bo angen.

**Vivup –** Darparwr buddion gweithwyr sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cynnig pentwr o fanteision ac arbedion iechyd a lles i'r holl staff ar draws nifer o frandiau mawr.

Mae rhai o fanteision y platfform hwn yn cynnwys:

- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith**
- **Cynllun ceir Tusker**
- **Gostyngiad nwyddau i'r cartref a nwyddau electroneg**

**Oriau Gwaith Hyblyg –** Mae staff corfforaethol yn gallu gweithio oriau hyblyg. Gydag oriau craidd o 10yb – 12yp a 2yb – 3yp; Gallwch gwblhau balans eich oriau unrhyw bryd rhwng 7yb a 7yp.

**Dysgu a Datblygu –** Mae GTADC yn cydnabod bod gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn allweddol i lwyddiant. Gyda Chanolfan Hyfforddi bwrpasol ym Mhorth Caerdydd a thimau hyfforddi arbenigol, mae digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu sgiliau newydd.

**Campfa** - Ble bynnag yr ydych wedi'ch lleoli fel gweithiwr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae mynediad i'n cyfleusterau campfa ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim.

**Ymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd** - Mae ein Hymgynghorwyr Iechyd a Ffitrwydd yn monitro lefelau ffitrwydd staff gweithredol. Gallant hefyd gynnig cyngor iechyd a ffitrwydd i bob gweithiwr ar gais.

**Elusen Diffoddwyr Tân** - Gall pob gweithiwr, ynghyd â'u dibynyddion, fod yn fuddiolwyr yr elusen. Mae'r elusen yn darparu cymorth iechyd a lles i holl gymuned y Gwasanaeth Tân.

**Parcio Ceir –** Nid yw GTADC yn codi tâl am barcio yn unrhyw un o'i safleoedd.

**Hyrwyddwyr Golau Glas Mind –** Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i iechyd a lles, rydym yn cefnogi Rhaglen Golau Glas MIND. Mae'r rhaglen yn cynnig cymorth iechyd meddwl i weithwyr y gwasanaethau brys.

**Iechyd Galwedigaethol -** Nod yr Uned Iechyd Galwedigaethol yw cynyddu effeithlonrwydd iechyd a lles staff i'r eithaf a lleihau'r risgiau y mae staff yn agored iddynt o ganlyniad i arferion gwaith a'r amgylchedd.

**Pensiwn –** Mae staff cymorth yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion penodedig. Mae cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar eich cyflog.

**Chwaraeon a Chymdeithasol –** Mae ein hadran chwaraeon a chymdeithasol yn dod â gweithwyr ynghyd o bob adran. Mae ffotograffiaeth, sgïo, crwydro, seiclo, pêl-droed, rygbi, syrffio a golff yn rhai o'r diddordebau a rennir.

**Cyrsiau Cymraeg –** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn cynnig mynediad i bob gweithiwr i gyrsiau Cymraeg ar ystod o lefelau i weddu i bob angen.

**Hyderus o ran Anabledd** – Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd ardystiedig

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

## South Wales Fire and Rescue Service

Recruitment & Retention Team
Fire Service Headquarters
Forest View Business Park
Llantrisant
CF72 8LX

Recruitment Line – 01443 232200
recruitment@southwales-fire.gov.uk

**SCAN ME**

www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us